

<b>Adroddiad i'r</b>	<b>Pwyllgor Craffu Cymunedau</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	<b>9 Rhagfyr 2021</b>
<b>Aelod Arweiniol / Swyddog</b>	<b>Y Cyngorydd Mark Young - Aelod Arweiniol Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd, Cymunedau Mwy Diogel a Cham-drin Domestig</b>  <b>Y Cyngorydd Barry Mellor - Cadeirydd - Grŵp Tasg a Gorffen Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr</b>
<b>Awduron yr adroddiad</b>	<b>Angela Loftus (Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai) a Kim Waller (Rheolwr Prosiect Arweiniol)</b>
<b>Teitl</b>	<b>Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych (2021) – Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu gan y Grŵp Tasg a Gorffen</b>

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1. Mae'r Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal a chyflwyno asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru bob 5 mlynedd. Mae angen i'r Cyngor yn awr gynnal asesiad newydd a'i gyflwyno, gan fod yr asesiad presennol wedi'i gymeradwyo yn 2017. Yn dilyn adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar 13 Mai 2021, sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen i gefnogi gwaith ar yr asesiad newydd. Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen bellach wedi cwblhau eu gwaith ac mae'r adroddiad terfynol gan y Grŵp wedi'i atodi fel Atodiad 1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi casgliadau gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen.

1.2. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cyflwyno'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (AALIST) drafft ar gyfer Sir Ddinbych (wedi'i atodi fel Atodiad 2).

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1. Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu ar waith y Grŵp Tasg a Gorffen. Mae'r gwaith ar y AALIST bellach wedi'i gwblhau a bydd casgliadau'r Grŵp Tasg a Gorffen yn helpu i lywio ystyriaeth y Pwyllgor Craffu o'r AALIST drafft.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1. Bod y Pwyllgor Craffu yn cymeradwyo casgliadau'r Grŵp Tasg a Gorffen bod:

- a) Gwaith ar yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi bodloni gofynion y Briff Gwaith a'r Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu â Budd-ddeiliaid a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Craffu ar 26 Gorffennaf 2021.
- b) Methodoleg Llywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio'n briodol i ddadansoddi'r angen.

3.2. Bod y Pwyllgor Craffu yn cadarnhau ei gefnogaeth i'r dull o fynd ati i gyflawni Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych fel un cadarn ac sy'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

3.3. Bod y Pwyllgor Craffu yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau

3.4. Bod y Pwyllgor Craffu yn argymhell i'r Cabinet y dylai'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr drafft gael ei gymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## **4. Manylion yr adroddiad**

### **Cefndir**

4.1. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar Awdurdodau Lleol i asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr (Adran 101) ac yna bodloni'r anghenion hynny (Adran 103). Mae gofyniad cyfreithiol (Deddf Tai (Cymru) 2014) i Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr gael eu cynnal bob 5 mlynedd o leiaf ac mae angen i'r Cyngor yn awr gynnal Asesiad newydd. Mae Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr diweddaraf hefyd yn ofynnol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) newydd. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru yw 24 Chwefror 2022.

- 4.2. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol manwl ‘*Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr*<sup>1</sup>. Bydd Llywodraeth Cymru yn asesu'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi'i gwblhau yn erbyn y fethodoleg hon.
- 4.3. Mae dull rheoli prosiect cadarn wedi'i fabwysiadu wrth sefydlu Bwrdd Prosiect o dan arweiniad Aelod, gyda'r Arweinydd a'r Aelod Arweiniol yn gweithio gydag Uwch Swyddogion i gyfeirio'r gwaith hwn gan sicrhau bod Aelodau yn cyfrannu, bod yn agored ac yn dryloyw.

### **Grŵp Tasg a Gorffen**

- 4.4. Yn flaenorol codwyd pryderon gan Aelodau Etholedig a'r Pwyllgor Craffu o ran lefel yr ymgynghoriad gyda chymunedau Sipsiwn a Theithwyr a'r angen am ymgysylltiad cynnar gyda'r Aelodau. Cytunodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn ei gyfarfod ar 13 Mai 2021 y dylid sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i roi cymorth i ddatblygu AALIST newydd. (Mae'r Cylch Gorchwyl wedi'i atodi yn Atodiad 1).
- 4.5. Diben y Grŵp yw sicrhau bod y camau a gymerir i ddarparu'r AALIST newydd yn cydymffurfio â methodoleg Llywodraeth Cymru a bod adborth blaenorol yn cael ei gymryd i ystyriaeth o fewn y ddogfen yn unol â gofynion y Pwyllgor Craffu.
- 4.6. Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi cyfarfod chwe gwaith. Mae'r trafodaethau wedi cynnwys pob elfen o fethodoleg Llywodraeth Cymru. Maent wedi adolygu cynnydd ar yr asesiad a chanfyddiadau'r adroddiad AALIST drafft. Mae eu hadroddiad terfynol wedi ei atodi fel Atodiad 1. Mae'r Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Mark Young wedi mynychu cyfarfodydd fel arsylwr ar gais y Grŵp Tasg a Gorffen. Mae'r cwmni sy'n ymgymryd â'r AALIST ar ran y Cyngor, Opinion Research Services (ORS) hefyd wedi bod yn bresennol mewn cyfarfodydd Grŵp i gwrdd ag aelodau ac i drafod y fethodoleg. Roedd y Grŵp yn fodlon ag arbenigedd a phrofiad y cwmni i gynnal asesiadau o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.
- 4.7. Yn y cyfarfod ar 26 Gorffennaf 2021, cadarnhaodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau y *Briff Gwaith a'r Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu â Budd-ddeiliaid* (y gellir eu gweld

---

<sup>1</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cynnal-asesiadau-o-anghenion-llety-sipsiwn-a-theithwyr.pdf>

fel [Atodiadau 2 a 3 i eitem busnes 4 yn rhaglen y cyfarfod hwnnw](#)) a ddatblygwyd gan y Grŵp Tasg a Gorffen i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r AALIST yn unol â methodoleg Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd y Pwyllgor Craffu ei fod yn cefnogi'r dull a fabwysiadwyd fel un cadarn ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Gyda chefnogaeth y Pwyllgor Craffu, lansiwyd y AALIST. Ymgwymerwyd â'r gwaith ar yr Asesiad o fis Awst hyd at fis Hydref 2021.

- 4.8. Roedd y Briff Gwaith a'r Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu â Budd-ddeiliaid yn cynnwys gweithgareddau i fodloni gofynion methodoleg Llywodraeth Cymru yn ogystal â gweithgareddau ychwanegol sy'n bwysig i'r Cyngor. Mae'r rhain wedi darparu'r fframwaith ar gyfer cynnal y AALIST. Roedd ystod y gweithgareddau ychwanegol yn cynnwys cynnal arolwg ar-lein i aelodau a chynnwys aelodau mewn hyrwyddo'r arolwg - gan sicrhau mwy o gyfraniad gan aelodau ar y cam cynnar hwn. Roedd cyflogi Swyddog Cyswllt Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod mis Awst hefyd yn sicrhau bod teuluoedd teithio oedd yn aros yn y Sir yn ystod cyfnod yr Asesiad yn ymwybodol o'r Asesiad ar y pryd.
- 4.9. Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi adolygu'r gwaith a wnaed ac wedi cytuno eu bod yn fodlon gyda darpariaeth y Briff Gwaith a'r Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu â Budd-ddeiliaid a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau.
- 4.10. Cyflwynwyd canfyddiadau ac argymhellion y AALIST drafft i'r Grŵp Tasg a Gorffen yn eu cyfarfod ar 15 Tachwedd a chytunodd y Grŵp eu bod yn fodlon bod methodoleg Llywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio yn briodol i ddadansoddi'r angen.

#### **AALIST Drafft ar gyfer Sir Ddinbych**

- 4.11. Mae ystod eang o ddulliau wedi'u defnyddio i godi ymwybyddiaeth o'r AALIST ac i ymgysylltu gyda'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr (SRT) yn unol â Chynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu â Budd-ddeiliaid.
- 4.12. Cynhaliwyd gwaith maes a gwaith casglu data i'r arolwg gan Opinion Research Services (ORS) ar ran y Cyngor. Cafodd aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr a gafodd eu dynodi eu cyfweld gan weithwyr maes ORS i asesu eu hanghenion yn defnyddio holiadur yr arolwg a ddarperir ym methodoleg Llywodraeth Cymru. Mae gwaith ar yr Asesiad bellach wedi'i gwblhau ac mae'r AALIST drafft wedi'i atodi fel Atodiad 2. (Mae Atodiad D i Atodiad 2 wedi ei eithrio rhag ei gyhoeddi yn rhinwedd paragraffau 12 ac 13 o Ran 4 i Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.)

4.13. Mae'r AALIST drafft ar gyfer Sir Ddinbych yn dod i'r casgliad bod:

- Angen am 8 gweryllfa breswyl i fodloni anghenion dynodedig 3 aelwyd/grŵp teulu estynedig yn y Sir.
- Nid oes tystiolaeth o'r angen am safle dros dro parhaol, oherwydd nifer isel y gwerylloedd diawdurdod, natur tymor byr y gwerylloedd hyn a'r ffaith nad oedd cyfweiliadau gyda Sipsiwn a Theithwyr yn nodi bod angen darpariaeth dros dro parhaol yn lleol. Argymhellir y gellir datblygu'r dull ar sail rheoli a ddefnyddir eisoes ar gyfer gwerylloedd diawdurdod ymhellach, yn seiliedig ar arfer gorau ar draws y Deyrnas Unedig, a all gynnwys 'stopio sydd wedi'i drafod'.
- Rhagfynegwyd y bydd twf aelwydydd y dyfodol yn 4 aelwyd ychwanegol o 2026 - 2033

4.14. Bydd trafodaethau'r cyfarfod hwn yn cael eu hadrodd i'r Cabinet ar 14 Rhagfyr a'r bwriad yw cael cymeradwyaeth yn y cyfarfod hwn ar gyfer cyflwyno'r AALIST drafft i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd cwblhau'r AALIST yn cyfrannu at y flaenoriaeth Gorfforaethol: *Tai* drwy nodi anghenion llety'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae ymgynghorwyr wedi eu caffael ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) i gynnal yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer bob Sir. Bydd ymrwymiad CSDd o £5.5mil yn dod o gyllideb y CDLI.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Mae Asesiad o'r Effaith ar Les wedi cael ei gynnal ar gyfer y prosiect ac wedi'i atodi fel Atodiad 3. Daw hyn i'r casgliad bod yr effaith cyffredinol yn bositif.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?**

Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd gan y Pwyllgor hwn wedi cyfarfod chwe gwaith hyd yma ac mae'r trafodaethau wedi llywio datblygiad y Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu â Budd-ddeiliaid a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 26/7/21.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Fel y nodir yn Adran 6 nid oes yna gostau uniongyrchol sy'n ymwneud â gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen a chroesewir bod costau cychwynnol ymgynghorwyr wedi'i gymryd i ystyriaeth o fewn cyllidebau presennol.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae nifer o risgiau i'r prosiect wedi'u nodi ac wedi'u cynnwys yn asesiad risg achos busnes y prosiect llawn. Mae diffyg cefnogaeth wleidyddol wedi'i nodi fel risg sylweddol sydd wedi arwain at ymgysylltu'r Arweinydd a'r Aelod Arweiniol yn y prosiect o'r dechrau. Bydd sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen ac adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu yn sicrhau mwy o gyfraniad gan Aelodau yn y prosiect.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

Adran 101 - Deddf Tai (Cymru) 2014

Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

Adran 7.4.1 ac Adran 7.4.2 (d) o Gyfansoddiad y Cyngor.